# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin a Grwp Ti a Fi Waunfawr

**Y Ganolfan**
**Waunfawr**
**Caernarfon**
**LL55 4YY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin a Grwp Ti a Fi Waunfawr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin a Grwp Ti a Fi Waunfawr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin a Grwp Ti a Fi Waunfawr |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lois Eleri Hughes |
| Person â gofal | Eira Delacey-Vallecarde a Kara Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 blwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 o blant tair blwydd oed a 7 o blant pedair blwydd oed |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 o blant |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher 8:50yb tan 3:00yp Dydd Iau a dydd Gwener 8:50yb tan 1:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail-gofrestru gydag AGC |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/06/2024 |
| Nifer o blant sy'n siarad Cymraeg adref 28 allan o 32 o blant. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r Unigolyn Cyfrifol roddi sylw iddynt.

Mae gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahân i'r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob damwain a digwyddiad yn cael eu llofnodi gan rieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf

A2 Cynllunio'n fwy pwrpasol ar gyfer datblygu medrau'r plant a gwella'r defnydd o arsylwadau i sicrhau eu bod yn cefnogi cynnydd plant unigol yn effeithiol

A3 Ystyried barn yr holl randdeiliaid wrth gynllunio ar gyfer gwelliant

A4 Sicrhau bod y system oruchwylio ac arfarnu yn cael ei ffurfioli a'i hymgorffori yn ymarferol

A5 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Dim mewn gweithgarwch dilynol**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau’n dda. O ganlyniad, maent yn dewis eu gweithgareddau a’u profiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Maent yn symud rhwng yr ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan yn gwbl annibynnol, ac yn cynnal diddordeb yn eu gwaith am gyfnodau estynedig.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu’n hyderus ac yn mynegi eu hunain yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn cyfarch ymarferwyr a'u ffrindiau wrth gyrraedd y lleoliad gyda gwên. Rhannodd plant eu straeon yn frwdfrydig a siaradodd plentyn yn hapus am amser pan wnaeth ‘mam trwsio beic’. Dywedodd plentyn, gyda balchder, eu bod wedi paentio 'blodyn pinc'. O ganlyniad, maent yn mwynhau siarad am eu gweithgareddau dyddiol yn frwdfrydig.

Mae bron bob plentyn yn hapus oherwydd y berthynas gynnes sy’n bodoli rhyngddynt â’r ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn mwynhau eistedd gydag ymarferwyr a sgwrsio am y llyfrau stori a chael cwtsh. Mae mwyafrif y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, roeddynt yn dangos sut maent yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd a sut maent yn paratoi eu hunain i fynd allan i gerdded i gasglu eu ffrindiau o'r ysgol.

Mae mwyafrif y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a’r ymarferwyr. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill yn ystod amser bwyd ac yn ymarfer moesau da. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro,er enghraifft wrth helpu ei gilydd i gerdded ar draws y planciau pren. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn bwrpasol. Er enghraifft, yn ystod amser crefft maent yn rhannu'r paent, glud ac yn cymryd eu tro i ddefnyddio'r defnyddiau sgleiniog. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o blant yn dysgu am garedigrwydd tuag at eraill yn dda. Er enghraifft, maent yn sgwrsio’n ddeallus gydag ymarferwyr ynglŷn â gwisgo’r doliau mewn dillad cynnes a rhannu toes gyda ffrindiau. Maent yn amyneddgar i’w gilydd wrth baratoi te a chacennau yn y tŷ bach twt.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn weithgar ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu wrth ymchwilio yn eu hamgylchedd. Maent yn mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref. Er enghraifft, dangosodd plentyn i'w ffrind sut i ddefnyddio'r hwfer tegan i lanhau'r carped. Mae plant yn mwynhau archwilio'r gwahanol synau y gallant eu gwneud trwy daro'r planciau pren gyda ffon. Maent wrth eu bodd yn creu rhythm.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus, sy’n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau priodol wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu,er enghraifft, wrth iddynt greu marciau yn y tywod, defnyddio ystod eang o nwyddau i addurno eu creadigaethau allan o does a chwblhau jig-so.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn syth. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhyngddynt ac maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu cyflawniadau'n frwdfrydig. Mae gan ymarferwyr ddull cynnes a chyfeillgar ac maent yn cyfarch y plant gyda gwên a lleisiau tyner.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth da o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Maent yn cofnodi presenoldeb plant yn brydlon ac mae gan mwyafrif yr ymarferwyr hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu cyfredol. Cynhelir driliau tân yn rheolaidd a chofnodir y canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau ymarferol yn briodol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach a bod dŵr a llefrith ar gael iddynt. Maent yn trefnu gweithgareddau chwarae da yn yr awyr agored, gan annog y plant i chwarae'n frwd i feithrin eu medrau corfforol. Mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo sy'n eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn llwyddiannus. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau ond nid yw'r rhain i gyd wedi'u llofnodi gan rieni a gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod wedi eu hysbysu a'u cydnabod. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau newid clytiau priodol, sy'n cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol.

Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol plant,yn sicrhau amgylchedd cynhwysol ac yn rheoli rhyngweithiadau'n bositif. Mae ymarferwyr yn cefnogi mewn modd sensitif a chadarnhaol. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant ac yn bodloni eu hanghenion unigol yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas leol yn addas. Maent yn trefnu teithiau cerdded ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau gyda'r ysgol gynradd leol. Maent yn cefnogi plant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn hyderus drwy eu profiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, trefnodd ymarferwyr sesiwn amser stori hyfryd, ac maent yn annog plant i gymryd rhan yn y stori trwy ofyn ac ateb cwestiynau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant a gofynion y cwricwlwm ac maent yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant. Mae'r cynllunio yn cael ei arwain gan y plant ac mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i'w ddiddordebau

a’u syniadau. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd i arbrofi gyda phaent, datblygu eu medrau cydbwyso wrth greu llwybrau, a gweini bwydydd i’w gilydd ar lestri go iawn. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynllunio’n ddigon bwriadus i adeiladu’n systematig ar fedrau’r plant.

Mae’r holl ymarferwyr yn rhyngweithio’n effeithiol â’r plant ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a datrys problemau gan fodelu’r Gymraeg yn dda. Maent yn ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn gyson i gyfoethogi iaith y plant, ac yn eu herio i ymchwilio gwahanol ddeunyddiau gyda magnetau. Mae’r ddarpariaeth i gefnogi medrau rhifedd y plant yn briodol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i gyfri ac i adnabod siapau dau ddimensiwn ac i gymharu pwysau gwrthrychau mewn clorian dafol. Mae ymarferwyr yn dechrau craffu ar ddatblygiad plant mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon bwriadus i symud y plant ymlaen i’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu hannibyniaeth a’u medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i arbrofi gyda sialc a phaent, adeiladu muriau mawrion ac ymarfer rholio, bownsio a dal peli. Er hyn, nid oes amrediad digonol o adnoddau i hyrwyddo datblygiad medrau digidol plant.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant mewn ffordd ystyrlon. Maent yn fodelau rôl dda, yn annog y plant i fod yn garedig ac i ddangos parch at ei gilydd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn rhoi clod i’r plant yn gyson wrth iddynt rannu adnoddau a bod yn garedig gyda phlant eraill. Mae ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth am sut i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas ehangach. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau a diwrnodau dathlu fel diwrnod Dydd Gŵyl Dewi a chanu rhigymau Cymreig cyfarwydd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy’n ddiogel, yn lân ac yn cynnig cyfleoedd da i blant tu mewn a thu allan i’r adeilad. Maent yn cwblhau asesiadau risg sy’n amlinellu’n fras y camau i’w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae arweinwyr wedi gwella trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn briodol. Maent yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn goruchwylio’r plant yn dda ac yn gwybod sut i ymateb i unrhyw argyfwng.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi’r plant i symud o gwmpas yn rhydd, gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o adnoddau naturiol i feithrin medrau’r plant yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gosod teganau ac adnoddau yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant, sy’n eu helpu i wneud penderfyniadau a

dewisiadau am yr hyn y maent eisiau ei ddefnyddio. Mae gan y lleoliad ardal addas i blant storio eu heitemau personol, sy’n creu ymdeimlad o berthyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad addas o adnoddau amlddiwylliannol i ddechrau godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach. Yn ogystal, maent yn defnyddio deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu a’u hailddefnyddio yn dda i ddatblygu chwilfrydedd naturiol plant. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol, sy’n rhoi ymdeimlad o falchder iddynt.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn briodol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ond nid ydynt yn sicrhau eu bod yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau’n llwyr.

Mae’r pwyllgor a thîm arwain yn gymharol newydd ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i ddatblygu eu gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben clir, sy'n hysbysu rhieni a gwarchodwyr yn dda am yr hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau defnyddiol, y mae ymarferwyr yn eu dilyn yn addas.

Mae arweinwyr yn creu awyrgylch cadarnhaol o waith tîm ar draws y lleoliad ac mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd yn dda. O ganlyniad mae ethos cartrefol, hapus a chroesawgar yn bodoli. At ei gilydd, mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi lles, dysgu a chwarae plant. Maent yn sicrhau bod gan ymarferwyr gymwysterau addas a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae arweinwyr wedi casglu'r wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant ond nid ydynt wedi sicrhau bod eu prosesau recriwtio yn drylwyr ac o ganlyniad nid yw gwiriadau pob ymarferydd yn gyflawn i gwrdd â'r gofynion. Mae gan arweinwyr weithdrefnau priodol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu; fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau un-i-un hyn bob amser yn cael eu ffurfioli a'u cynnal yn rheolaidd.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i arfarnu gwaith y lleoliad a nodi’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn briodol. Maent yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol buddiol, fel mynychu cyrsiau hyfforddi a argymhellir gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid ydynt o hyd yn ystyried barn yr holl randdeiliaid wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Er i’r lleoliad fanteisio ar gyngor athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi, nid yw’r partneriaethau hyn wedi’u datblygu’n llawn hyd yma.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau ac yn blaenoriaethu gwariant cyllideb a grantiau yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddeallus. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi mewn gwelliannau yn yr ardal allanol er mwyn darparu amgylchedd ysgogol a chyffrous i blant.

Mae ymarferwyr a’r plant yn elwa o bartneriaeth fuddiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol ac yn darparu llyfryn iddynt ar ddiwedd y flwyddyn, sy’n adlewyrchu cyflawniadau eu plant. Er hyn, nid ydynt yn manteisio ar y cyfle i’w hysbysu yn ddigon cyson am yr hyn mae’r plant yn ei

gyflawni, a hynny'n cyfyngu ar ymwybyddiaeth rieni a gofalwyr am brofiadau'r plant.

Mae gan arweinwyr gysylltiadau cadarn gyda'r ysgol lleol ac mae ganddynt drefniadau pontio effeithiol ar waith, sy'n cefnogi plant yn llwyddiannus wrth iddynt baratoi i symud i'r ysgol. Mae ymarferwyr yn cerdded y plant i'r ysgol yn nhymor yr haf, lle cânt ymuno yn y mabolgampau, a chwrdd â'u hathrawon newydd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ganddynt yr holl wiriadau addasrwydd angenrheidiol ar gyfer pob ymarferydd cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi 13 Awst 2024**